**PWYLLGOR SAFONAU**
**6 MEDI 2021**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell, ddydd Llun 6 Medi 2020.

**YN BRESENNOL: Julia Hughes (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Gladys Healey, Patrick Heesom ac Arnold Woolley

Aelodau cyfetholedig: Jonathan Duggan-Keen, Jacqui Guest, Mark Morgan a Gill Murgatroyd

**YMDDIHEURIADAU:** Phillipa Earlam a'r Dirprwy Swyddog Monitro

**HEFYD YN BRESENNOL:** Roedd David Davies yn bresennol yn arsylwi.

**YN BRESENNOL:** Swyddog Monitro a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 11. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

## 12. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2021, fel y'u cynigiwyd gan Mark Morgan a'u heilio gan y Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

## 13. GODDEFEBAU

Dim.

## 14. DARGANFYDDIADAU YMWELIADAU AELODAU ANNIBYNNOL Â CHYFARFODYDD PWYLLGORAU

Cyflwynodd y Swyddog Monitro yr adroddiad oedd yn crynhoi'r darganfyddiadau o ymweliadau a gynhaliwyd gan Aelodau Annibynnol y Pwyllgor â chyfarfodydd y Cyngor yn gynharach yn y flwyddyn.

Er y cafwyd adborth positif ar y ffordd yr oedd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal a'u cadeirio, gwnaed pedwar sylw i wella eglurder a dealltwriaeth i'r rhai oedd yn gwylio'r cyfarfodydd ar-lein. Roedd mwyafrif yr awgrymiadau wedi cael eu rhoi ar waith ac roedd rhai'n gamau parhaus. Gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r darganfyddiadau cyn eu rhannu â Chadeiryddion y Pwyllgorau.

Awgrymodd Gill Murgatroyd y gellid, pan fo'n bosibl, labelu Aelodau Annibynnol neu Aelodau Cyfetholedig yn briodol pan oeddent yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd o bell i'w gwahaniaethu oddi wrth y Cynghorwyr.

Cynigiodd Mark Morgan y dylid rhannu'r darganfyddiadau â Chadeiryddion Pwyllgorau ac Arweinwyr Grwpiau. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Arnold Woolley.

**PENDERFYNWYD:**

Rhannu'r darganfyddiadau'n ffurfiol â Chadeiryddion Pwyllgorau ac Arweinwyr Grwpiau.

## 15. ADOLYGU'R FFRAMWAITH SAFONAU MOESEGOL

Cyflwynodd y Swyddog Monitro'r wybodaeth ddiweddaraf am Adolygiad y Fframwaith Safonau Moesegol sy'n cael ei gynnal gan Richard Penn ar ran Llywodraeth Cymru, fel yr adroddwyd yn y cyfarfod blaenorol.

Yn dilyn cyfnod ymgynghori, roedd cyfres o argymhellion wedi cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w hystyried ac ymateb iddynt yn yr hydref. Byddai unrhyw ddeddfwriaeth oedd ei hangen o ganlyniad i'r adolygiad yn cael ei phasio cyn diwedd y cyfnod llywodraeth leol hwn. Byddai'r adroddiad ac ymateb LlC yn cael ei roi ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer y Pwyllgor pan fyddai wedi ei gyhoeddi.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Arnold Woolley a Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad ac aros canlyniad yr adolygiad.

## 16. CYNHADLEDD SAFONAU CYMRU GYFAN

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad ar y paratoadau ar gyfer y Gynhadledd Safonau Cymru Gyfan fyddai'n cael ei chynnal dros y we ddiwedd Hydref/Tachwedd 2021. Pan fyddai'r dyddiad wedi'i gadarnhau, byddai cynrychiolwyr o'r Pwyllgor yn cael gwahoddiad i gymryd rhan.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig gan y Cynghorydd Arnold Woolley a'i eilio gan Jonathan Duggan-Keen.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r paratoadau ar gyfer y gynhadledd.

## 17. ADBORTH O'R CYFARFOD CYSWLLT MOESEGOL

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad oedd yn rhoi adborth o'r ail gyfarfod cyswllt moesegol a gynhaliwyd ym mis Awst.

Roedd y cyfarfod wedi cael ei groesawu a chytunwyd ar ystod o gamau gweithredu i gefnogi'r ddyletswydd sydd ar ddod i Arweinwyr Grwpiau i helpu i hyrwyddo ymddygiad da gan Aelodau etholedig. Roedd Arweinwyr Grwpiau wedi

cytuno i gael cyfarfodydd pellach a byddai gofyn iddynt gymeradwyo maes llafur drafft o gamau gweithredu i gael eu cyflwyno ar gyfer y broses sefydlu Aelodau yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022.

Siaradodd y Cadeirydd, Is-gadeirydd (Mark Morgan) a’r Cynghorydd Patrick Heesom – oedd yn bresennol – o blaid gwerth y cyfarfodydd cyswllt moesegol.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig gan Mark Morgan a’i eilio gan y Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

Croesawu canlyniadau’r cyfarfod cyswllt moesegol a chytuno i gynnal trydydd cyfarfod yn y flwyddyn newydd.

**18. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i’w hystyried, ac awgrymwyd y newidiadau canlynol:

- Os bydd ar gael, cynnwys Adolygiad Penn o’r Fframwaith Safonau Moesegol ar raglen y cyfarfod ar y cyd â chynrychiolwyr Cynghorau Tref/Cymuned ar 1 Tachwedd 2021.
- Y cyfarfod ym mis Ionawr 2022 i gynnwys eitem ar y rhaglen ar gyfer y cyfarfod Cyswllt Moesegol nesaf.
- Yr eitem ar ymweliadau Aelodau Annibynnol â chyfarfodydd y Cyngor i gael ei symud o fis Ionawr i fis Mehefin 2022 er mwyn dechrau cynllunio’r broses o ailddechrau ymweliadau ym mis Medi 2022.

Cynigiodd Gill Murgatroyd y dylid derbyn y newidiadau ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo’r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol wedi ei diwygio.

**19. AELODAU O’R WASG YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelod o’r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 6.45pm a gorffennodd am 7.45pm)

**…………………………**
**Cadeirydd**